

Yn ystod blwyddyn pan soniwyd bod dyfodol *Yr Herald*, un o bapurau hynaf yr iaith Gymraeg, yn y fantol, fe'n hatgoffwyd o'r Unol Daleithiau fod *Y Drych*, a sefydlwyd rhyw dair neu bedair blynedd o flaen *Yr Herald Cymraeg*, eleni yn dathlu canmlwydd a hanner ei sefydlu, a'i fod nid yn unig yn dal ei dir fel papur newydd at wasanaeth Cymry'r Amerig, ond hefyd yn mynd ymlaen o nerth i nerth.

Adroddwyd hanes y deugain mlynedd cyntaf yn hanes *Y Drych* yn weddol fanwl a chywir gan T. Morris Jones ('Gwenallt') yn ei gyfrol fuddiol *Llenyddiaeth fy Ngwlad* (Treffynnon, 1893), ac fel y gwelwyd newid fwy nag unwaith ym mherchnogaeth a golygyddiaeth y newyddiadur erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Dyddiwyd y rhifyn cyntaf o'r papur Ionawr 2, 1851, a'r perchennog oedd John Morgan Jones (1816-1912), brodor o ardal Llanidloes, a wasanaethai hefyd fel ei olygydd. Ond, a bod yn fanwl gywir, roedd rhifyn o'r papur wedi ymddangos cyn hynny, ar Dachwedd 11, 1850. Argraffiad 'peilot' oedd hwnnw (yn unol ag arferiad y cyfnod), wedi ei ddarparu'n bennaf er mwyn ceisio penderfynu beth fyddai ymateb y farchnad i'r bwriad i lansio papur wythnosol cwbl newydd at wasanaeth Cymry Cymraeg Gogledd America, gyda'r amcan, meddid, o 'adlewyrchu y meddwl Cymreig'.

Argraffwyd *Y Drych* cyntaf yn 1851 gan Edward O. Jenkins, 114 Nassau Street, Efrog Newydd, ond ar ôl gwerthu'r papur yn 1854 i gwmni arall yn yr un ddinas, dechreuodd Benjamin Parry ei argraffu, cyn trosglwyddo'r gwaith i ddwylo Richards a Jones, sy'n enwau a welir ar rifyn Rhagfyr 27, 1856 o'r papur. Erbyn yr ymddangosodd rhifyn Mai 6, 1857 yr argraffwyr oedd 'Jones a Parry', ac y mae'n rhesymol casglu mai Benjamin Parry - brodor o Dreffynnon - oedd y gŵr yn dwyn y cyfenw Parry a fu ynglŷn â'r *Drych* yn ei ddyddiau cynnar.

Diau y bu'r ychydig brofiad a gafodd ef fel argraffydd ieuanc yn *Efrog Newydd* o help mawr iddo yn ddiweddarach yn ystod ei yrfa, gan iddo benderfynu dychwel i Gymru o'r Amerig adeg y Rhyfel Cartref yno (1861-65), a threulio rhai blynyddoedd yng ngwasanaeth Hughes a'i Fab yn Wrecsam, cyn ymsefydlu ar ei liwt ei hun fel cyhoeddwr cerddoriaeth (caneuon Cymraeg yn bennaf) yn Abertawe, lle y bu farw Awst 6, 1910.

Roedd cylchrediad *Y Drych* yn y blynyddoedd cynnar yn un eithaf sylweddol, yn cyrraedd 2750 o gopiau yn niwedd 1854, meddir, er mai cellwair, mae'n

# Y Drych yn dathlu gan Huw Williams

Copi o glawr y rhifyn cyntaf, â cherdd Gwenffrwd ac emyn - don gan J. M. Thomas.

debyg, oedd y perchnogion (gyda'r amcan o geisio denu rhagor o hysbysebion, hwyrach?) wrth honni fod y cylchrediad wedi cyrraedd chwarter miliwn cyn diwedd blwyddyn ei sefydlu.

Diddorol yw sylwi ar y pwyslais a roddid ar farddoniaeth a cherddoriaeth yn y rhifyn cyntaf, er mai braidd 'yn y lleddf' y canai ambell brydydd a cherddor y cawsai ei gynnwys ei anrhydeddu yn y papur. Ymysg y farddoniaeth y dewiswyd ei hargraffu yn y rhifyn hwnnw yr oedd 'Gwyn y fam dros ei phlentyn y noson cyn ei dienyddiad' gan Thomas Lloyd Jones ('Gwenffrwd'), cerdd a ymddangosodd yn *Ceinion Awen y Cymry*, cyfrol o'i waith ef ac eraill a gyhoeddwyd yn Ninbych yn 1831. Roedd i Wenffrwd, brodor o Dreffynnon (fel Benjamin Parry, yn rhyfedd iawn!) gysylltiad Americanaidd, gan iddo ymfudo o Gymru yn ystod haf 1833 ac ymsefydlu fel ysgolfeistr yn Spring Hill, ger Mobile, Alabama, lle y bu farw o'r dwymyn felen ar Awst 16, 1834.

Beth am gerddoriaeth y rhifyn cyntaf? Ar y geiriau 'Yn Eden cofiaf hynny byth' (Pantycelyn) y gosododd J. M. Thomas, Efrog Newydd ei don 'Seaborn', alaw ar fesur 886.886 sy'n gwbl nodweddiadol o gynhyrchion cyfatebol y cyfnod, ac y dywedir oddi tani ei bod wedi ei chyfansoddi gan yr awdur 'yn dychwelyd i wlad ei enedigaeth'. Pwy tybed oedd y cerddor hwn? Ai'r Parchedig John Morgan Thomas (1825-94) tybed, brodor o Langadog yn ôl rhai (ond o Gwmllynfell yn ôl eraill), a ymfudodd gyntaf i'r Amerig yn 1849, cyn dychwel i Gymru yn ddiweddarach y flwyddyn honno, ac yna ymfudo eilwaith yn 1852, gan aros yn yr Amerig am weddill ei oes?

Ceir yr argraff wrth ddarllen rhai o rifynnau cynnar *Y Drych* fod gan y perchnogion lygaid craff iawn at fusnes, gydag anghenion darllenwyr yng Nghymru yn cael llawn cymaint o ystyriaeth ganddynt ag anghenion y Cymry Americanaidd. Rhoddid sylw hefyd ar y tudalennau, ambell waith, i rai materion Cymreig yn unig, a thro arall cyhoeddai amryw o bytiau ac ysgrifau a oedd o ddi-ddordeb arbennig i olygyddion papurau newydd yma yng Nghymru, ac y tybid y byddai'n fuddiol iddynt eu copio. Byddai'r rhain yn cynnwys hanesion am ddi-ddordebau a digwyddiadau diwylliannol, crefyddol, a gwleidyddol y Cymry, gyda llawer o bwyslais ar y 'prif' ddigwyddiadau, megis yr Eisteddfod, y Gymanfa Ganu, a gweithgarwch y gwahanol gymdeithasau crefyddol. Roedd eitemau fel y rhain yn arbennig o dderbyniol yn yr Amerig gan unigolion a theuluoedd heb fod yn byw o fewn cyrraedd hwylus i ganolfannau poblog y wlad, ac o gymorth mawr iddynt i geisio ymgyswrtu'r ddon â'r gweithgarwch hwnnw yr oeddynt wedi cefnu arno yma yng Nghymru.

Nid gwaith hawdd erbyn hyn yw dod ar draws rhifynnau cynnar o'r *Drych* yn llyfrgelloedd ein gwlad, a phrin iawn yw'r copiau a gyhoeddwyd mewn rhai cyfnodau arbennig, megis yn ystod y Rhyfel Cartref yn America rhwng 1861 a 1865.

Beth am rai o'r bobl hynny a fu ynglŷn â'r *Drych* yn ystod y cyfnod pan osodwyd y papur ar sylfeini cadarn? Un o'r gwyr mwyaf lliwgar ac amryddawn oedd John William Jones (1827-84) a fu'n ei gyd-olygu yn ystod 1852-54 a 1871-84, gan wasanaethu hefyd fel prif olygydd rhwng 1854 a 1864. Ef hefyd oedd perchennog y papur

rhwng 1858 a 1864. Adroddir peth o hanes y gŵr hwn gan Bob Owen, Croesor yn y *Bywgraffiadur Cymreig*. Yn frodor o Lanaelhaearn, Sir Gaernarfon, ymfudodd i'r Amerig yn wr ieuanc deunaw oed, ac ar ôl gweithio ar ffermydd yn Wisconsin ac Illinois, bu'n ceisio ei ddiwyllio ei hun trwy astudio am gyfnod yng Ngholeg Clinton, ger Utica. Yn dilyn ei farw ar Hydref 8, 1884, penderfynodd perchnogion *Y Drych* ei goffau mewn ffordd anarferol iawn, trwy roi darlun ohono'n rhad i bawb a fyddai'n tanysgrifio ymlaen llaw i'r papur newydd hyd ddiwedd 1885. Ni wyddys faint o'r darluniau hyn a gynhyrchwyd, ond clywyd am ambell gopi yn dod i'r fei yn yr Amerig yn gymharol diweddar, gan ennyn diddordeb a chwilfrydedd rhai o'r Cymry alltud ynglŷn â'r cefndir!

Ni fu'r *Drych* heb ambell i ddigwyddiad trist yn ei hanes, a'r tristaf oll, efallai, oedd y tân a ysgubodd trwy adeiladau T. J. Griffiths a'i Feibion, y perchnogion a'r cyhoeddwr, yn Liberty Street, Utica, ar Ragfyr 12, 1924, trychineb a ddisgrifiwyd ar y pryd fel un o'r rhai mwyaf o'i fath a welwyd yn Utica. Difrodwyd llawer o eitemau gwirioneddol werthfawr yn y filamau, megis peiriannau costus, ynghyd â stoc enfawr o bapur, a llawer o rifynnau o'r *Drych* a gyhoeddwyd ym mhump a chwe degau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ond er gwaethaf y trychineb hwn yn 1924, fe ymddangosodd pob rhifyn o'r *Drych* fel arfer y flwyddyn honno, ond wedi ei gwtogi i bedair tudalen dros dro yn unig, gyda'r perchnogion yn gallu ymfrostio ar y pryd fod y papur wedi cael ei gyhoeddi yn ddi-fwlch am dros 73 o flynyddoedd.

Merch yw perchennog, cyhoeddwr a golygydd y *Drych* presennol, ac fe wŷr y sawl sy'n

DARLUN LLIWIEDIG CYFLAWN-FAINT O'R DIWEDDAR JOHN W. JONES, Yr Hwn wedi ei Ffrwng, a odd yn Adroddi i Unigolion Ystafell.



Rhifyn Tachwedd 27, 1884, yn cynnig i'r darlennwyr "darlun ysblennydd" o John William Jones i'r rhai yn barod i danysgrifio am 1885.

(Parhad ar dudalen 18)